WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennir yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. (Ceir eglurhad o swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1). Mae'n adroddiad newydd y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o ran pa mor dda y mae cynghorau yng Nghymru yn gwella'u gwasanaethau. Gyda help gan arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae’r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n gwneud hynny; a beth mae angen ei wneud i wella ei wasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyfleu'r darlun hwnnw a bob blwyddyn byddwn yn llunio adroddiad i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi ymdrin â phob gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fach o feysydd; yn arbennig y meysydd hynny y mae'r Cyngor wedi'u nodi fel ei flaenoriaethau ar gyfer gwella.

Rydym am wybod eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal a chewch gyfle i gyflwyno sylwadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i lunio’r adroddiad hwn Rod Alcott a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella Cymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a’i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Rhif ffôn: 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

©Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Dinas a Sir Abertawe? 04

A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi'i reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella? 09

A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwasanaethu pobl yn dda? 12

- A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi pobl mewn angen? 13
- A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn helpu pobl i ddatblygu? 16
- A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw? 18

Beth ddylai Cyngor Dinas a Sir Abertawe ei wneud? 20


## Atodiadau


Atodiad 1 - Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 22

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Abertawe a Chyngor Dinas a Sir Abertawe 24

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 26

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Dinas a Sir Abertawe 27

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Dinas a Sir Abertawe 29

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 30

# Pa fath o ardal yw Dinas a Sir Abertawe?

1 Mae'r wybodaeth ym mharagraffau 2 i 5 yn dangos y cyd-destun y mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) yn gweithredu o'i fewn. Mae'n cynnwys gwybodaeth am faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y Cyngor. Fel y cyfryw, nid yw'n sylwadaeth ar berfformiad y Cyngor ond yn hytrach mae'n nodi'r materion sy'n wynebu'r Cyngor y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy ar y cyd ag eraill.

2 Mae gan Ddinas a Sir Abertawe arwynebedd daearyddol o 378km$^2$, sef y 14eg ardal awdurdod lleol fwyaf yng Nghymru. Gellir rhannu'r ardal yn fras yn dair ardal, sef penrhyn gwledig Gŵyr sydd â phentrefi bach gwasgaredig, ucheldir Lliw â'i dirlun gweundir nodweddiadol a chanolfannau trefol Dinas Abertawe, Gorseinon a Phontarddulais. Mae gan Abertawe gysylltiadau ffordd a rheilffordd da.

3 Yn 2009 tua 231,300 oedd poblogaeth y sir a oedd yn golygu mai Abertawe oedd y trydydd cyngor mwyaf yng Nghymru. O 2008 i 2021 mae'r Cyngor yn disgwyl i'r boblogaeth gynyddu 21,600, sef cynnydd o 9.4 y cant.

4 Roedd 13 y cant o boblogaeth Abertawe yn medru'r Gymraeg yn 2008: sef un o'r cyfraddau isaf o blith awdurdodau lleol Cymru.

5 Y gyfradd gyflogaeth yn 2009 oedd 64.6 y cant sydd yn is na chyfartaledd Cymru o drwch blewyn, a'r seithfed isaf yng Nghymru. Cyflogir ychydig dros 92,000 o bobl yn y diwydiannau gwasanaeth (gweinyddu cyhoeddus, addysg, iechyd, dosbarthu, gwestai a bwytai), sef mwyafrif sylweddol o'r bobl yn y sir sydd mewn cyflogaeth. Roedd un a hanner gwaith yn fwy o bobl wedi'u cyflogi ym maes gweithgynhyrchu nag adeiladu, er bod y ganran uchaf o fusnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn Abertawe yn 2008 yn fusnesau adeiladu (14 y cant). Busnesau manwerthu a phroffesiynol (gwyddonol a thechnegol) yw'r math o fusnesau mwyaf cyffredin ond un a gofrestrwyd ar gyfer TAW (12 y cant).

6 Mae rhagor o wybodaeth am Abertawe a'r Cyngor yn Atodiad 2.

ardal ddaearyddol
378 km$^2$
/////////////

poblogaeth
231,300
/////////////

siaradwyr cymraeg
13%
/////////////

# A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi'i reoli'n dda?

7 Mae rheoli sefydliad mor fawr sydd ag ystod eang o wasanaethau yn broses gymhleth iawn. Ym mis Gorffennaf 2010, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol Adroddiad Asesu Corfforaethol sy'n cynnwys rhywfaint o fanylion am sut y caiff y Cyngor ei drefnu a'i reoli. Nodir ein canfyddiadau yn Atodiad 3. Os ydych am ddarllen yr Adroddiad cyfan mae ar gael ar wefan y Cyngor neu ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

8 Y casgliad cyffredinol sy'n deillio o'r adroddiad hwnnw oedd bod gan y Cyngor gryfderau a gwendidau. Ei gryfderau yw gweithio mewn partneriaeth, rheoli prosiectau a rhai agweddau ar reoli adnoddau, sy'n cefnogi gwelliant yn gadarnhaol wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, ceir rhai problemau o ran llywodraethu o fewn y Cyngor, a rhai diffygion o ran cynllunio busnes, rheoli risg a rhai agweddau ar reoli pobl a all beryglu gwelliannau yn y dyfodol.

9 Bydd angen i'r Cyngor wneud arbedion yn y dyfodol ar raddfa fwy o lawer nag unrhyw beth a wynebwyd ganddo yn y gorffennol. Er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, bydd rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd ac amserol o ran pa wasanaethau i'w darparu a pha wasanaethau y gall fod angen rhoi'r gorau iddynt.

10 Canfuwyd bod gan y Cyngor rai trefniadau ar waith a fydd yn ei helpu i sicrhau gwelliant yn y dyfodol ond ceir diffygion hefyd y bydd angen mynd i'r afael â hwy. Yn arbennig, mae angen i'r Cyngor ddangos y gall wneud gwelliannau cynaliadwy o ran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Yn dilyn adroddiadau beirniadol blaenorol ar ansawdd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), sefydlodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol Fwrdd Ymyrraeth ym mis Mawrth 2009 i oruchwylio'r gwelliannau angenrheidiol.

11 Ers i ni lunio ein Hasesiad Corfforaethol mae AGGCC wedi cynnal dau adolygiad pellach o Wasanaethau Plant a Theuluoedd y Cyngor. Ar sail gwaith AGGCC yn y Cyngor, cafodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol sicrwydd bod perfformiad wedi gwella yn y rhan fwyaf o feysydd, ac roedd y Cyngor bellach mewn gwell sefyllfa i barhau i gyflawni gwelliannau pellach i'w wasanaethau Plant a Theuluoedd. Yn dilyn hyn cyhoeddodd y Dirprwy Gweinidog ar 19 Hydref 2010 nad oedd angen y Bwrdd Ymyrraeth mwyach.

12 Yn ein Hasesiad Corfforaethol nodwyd ein bwriad i gynnal adolygiad o drefniadau pwyllgorau cynllunio'r Cyngor. Cwblhawyd yr adolygiad hwn ac rydym wedi cyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau i'r Cyngor. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad yw penderfyniad y Cyngor i gynyddu nifer y pwyllgorau cynllunio yn cynrychioli defnydd effeithlon a phriodol o adnoddau. Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, rydym yn gwneud argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor iddo lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadroddiad.

13 Wrth lunio ein hadroddiad Asesu Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2010, nodwyd nifer o feysydd i'w gwella, y ceir crynodeb ohonynt yn y tablau ar dudalen 20. Dylid nodi bod rhai o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym, megis cynllunio ariannol tymor canolig a chynllunio'r gweithlu, yn gyffredin i'r rhan fwyaf o gynghorau ledled Cymru. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n cynigion, ac mae'r cynnydd a wnaed ganddo yn cynnwys y canlynol:

- cytuno ar Strategaeth Gymunedol ddiwygiedig ar gyfer 2010-14 gan Bartneriaeth Gwell Abertawe i gefnogi gwell trefniadau gweithio mewn partneriaeth;
- sefydlu panel gwerthuso partneriaethau;

- cwblhau a gwerthuso cynllun peilot cynllunio busnes;
- egluro ei strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau TGCh i ni;
- gwneud cynnydd o ran cynllunio'r gweithlu ac arfarnu perfformiad staff.

14 Ers i ni gyflawni ein gwaith maes ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol, mae'r pwysau ar y sector cyhoeddus wedi cynyddu, gyda bron pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu toriadau ariannol. Arian refeniw yw'r arian a werir gan Gynghorau ar redeg a rheoli eu gwasanaethau. Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei setliad cyllideb dros dro ar gyfer cynghorau ar 23 Tachwedd 2010. Dangosodd y gyllideb honno y bydd lleihad o tua £4.5 miliwn (1.5 y cant) yn yr arian refeniw a gaiff Cyngor Dinas a Sir Abertawe gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12; mae hyn yn rhoi ystyriaeth i'r broses o drosglwyddo grantiau penodol i grantiau cyffredinol. Ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, mae hyn yn golygu lleihad mewn termau real o tua £10.2 miliwn (3.4 y cant). Dengys ffigurau Dangosol Llywodraeth y Cynulliad leihad mewn termau real yn arian refiniw y Cyngor ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

15 Arian cyfalaf yw'r arian a werir gan gynghorau ar seilwaith, er enghraifft adeiladau a chyfarpar newydd. Bydd disgwyl i'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor leihau'n sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am arian cyfalaf i Lywodraeth y Cynulliad, nid yw'n bosibl bod yn gwbl sicr faint y bydd pob cyngor yn ei gael. Bydd lleihad o 14 y cant yng nghyfanswm yr arian cyfalaf sydd ar gael i gynghorau ledled Cymru yn 2011-12 (sef lleihad o 18.5 y cant mewn termau real). Mae'r arian hwn yn cynnwys cyfalaf cyffredinol sydd ar gael i bob Cyngor a grantiau cyfalaf penodol. Bu lleihad o 19.9 y cant mewn arian cyfalaf cyffredinol ledled Cymru. Dywed y Cyngor mai 19.6 y cant fydd y lleihad mewn arian cyfalaf mewn termau real yn ei achos ef. Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol ar gael ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol y tu hwnt i 2011-12 ond mae'n debygol o fod yn unol â lleihad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn lleihau tua 34 y cant (sef tua 40 mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2013-14.

16 Pennodd y Cyngor gyllideb gwariant refeniw net o £372.4 miliwn yn 2009-10. £384.5 miliwn oedd y gyllideb yn 2010-11. Ar 29 Medi 2010, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2009-10, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Ceir copi o'r llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 4.

17 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a mireinio'i ddull cynllunio ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Tybiodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2011-12 i 2013-14 y byddai lleihad o £10 miliwn mewn termau real yn y cyllid ar gyfer pob blwyddyn, a rhagwelodd y byddai gofyniad y gyllideb yn cynyddu £9.7 miliwn i £394.2 miliwn y flwyddyn nesaf, ac yn cynyddu £7.0 miliwn arall i £401.2 miliwn y flwyddyn ganlynol, oni bai bod camau'n cael eu cymryd i leihau gwariant. Dangosir y rhagfynegiadau hyn o angen a'r gyllideb sydd ar gael yn Ffigur 1.


18 Roedd Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2011-12 i 2013-14 yn cynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion ariannol a ragwelwyd bryd hynny. Roedd yn cydnabod y byddai angen cymryd camau ychwanegol er mwyn cyflawni sefyllfa ariannol gytbwys gynaliadwy yn y dyfodol, a fyddai'n cynnwys:

- lleihad sylweddol yn nifer y staff;
- lleihad mewn lefelau gwasanaeth;
- lleihad o ran y ddarpariaeth o wasanaethau;
- cynyddu taliadau ar gyfer gwasanaethau'r cyngor.

19 Ym mis Tachwedd 2010, rhoddodd cabinet y Cyngor ystyriaeth i adroddiad monitro ariannol ar gyfer chwe mis cyntaf 2010-2011. Amlygodd yr adroddiad y rhagwelid gorwariant o £4.7 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth, o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn bennaf. Cymeradwywyd camau gweithredu â'r nod o fantoli'r gyllideb, a nodwyd argaeledd Cronfa Wrth Gefn y Cyngor o £14.7 miliwn, i dalu am ofynion gwariant posibl nas cyllidwyd yn 2010-11 ac mewn blynyddoedd i ddod.

**Ffigur 1: Gofyniad gwariant cyllideb a ragwelir a'r adnoddau sydd ar gael 2010-11 i 2013-14**

Bydd y bwlch rhwng yr hyn y mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen iddo ei wario a lefel yr adnoddau a fydd ar gael iddo yn cynyddu yn y dyfodol oni bai bod y Cyngor yn cymryd camau i leihau gwariant.




*Ffynhonnell: Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2011-12 - 2013-14*

20 Mae'r Cyngor wedi dechrau paratoi cyllideb y flwyddyn nesaf, wedi dechrau diweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n gweithio ar amryw o opsiynau i fantoli'r gyllideb. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo blaenoriaethu gweithgarwch yn y tri maes canlynol:

- amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed;
- gwasanaethau uniongyrchol i ddisgyblion;
- gwasanaethau stryd wedi'u diffinio[1].

21 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gynigion, sydd wrthi'n cael eu datblygu'n llawn, yn arwain at arbedion sylweddol o ran costau i fantoli'r gyllideb refeniw dros y tair blynedd nesaf. Mae'r anawsterau presennol o ran mantoli'r gyllideb yn 2010-11, yn ogystal â'r sefyllfa ariannol a ragwelir yn y tymor canolig, yn dangos maint yr her sy'n wynebu'r Cyngor.

1 Disgrifir gwasanaethau stryd wedi'u diffinio gan y Cyngor fel a ganlyn: Y meysydd penodol y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yw'r rheini sy'n cadw'r priffyrdd yn lân ac yn ddiogel, yn cynnwys casglu sbwriel; glanhau graffiti; baeddu gan gŵn; ceudyllau; chwynnu a thipio anghyfreithlon, ynghyd â marciau ffordd, draenio priffyrdd a gwagio biniau sbwriel.

# A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwybod beth mae angen iddo ei wneud i wella?

22 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella'r hyn a wna a sut y mae'n ei wneud. Mae'n rhaid iddo hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif flaenoriaethau y mae'n bwriadu eu gwella bob blwyddyn - eu hamcanion gwella. Ar gyfer 2010-11 penderfynodd y Cyngor ganolbwyntio ar bedwar amcan, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc;
- gwella a diogelu'r amgylchedd;
- gwella perfformiad economaidd Abertawe;
- gwella gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i bawb.

23 Nodir amcanion gwella'r Cyngor yn llawn yn Atodiad 5.

24 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Cyflawnodd y Cyngor y gofyniad hwn drwy gyhoeddi ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol ym mis Mehefin 2010 a chyhoeddwyd y cynllun hwnnw a chrynodeb ohono ar ei wefan. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu copïau caled ar gyfer llyfrgelloedd, Swyddfeydd Tai Dosbarth a derbynfeydd cyhoeddus yn Neuadd y Dref a'r Ganolfan Ddinesig. At hynny, cynhwyswyd crynodeb yn Arwain Abertawe, a ddosbarthwyd i bob teulu yn Abertawe. Gan mai hon yw un o ddogfennau cyhoeddus pwysicaf y Cyngor dylai rhoi proffil uwch i'r cynllun ar y wefan a'i gwneud yn haws i bobl gael gafael arno.

25 Mae Cynllun Corfforaethol 2010-2011, sef Gwneud Gwahaniaeth yn ddogfen gynhwysfawr sy'n gwneud cysylltiad clir rhwng yr amcanion gwella a nodau cyffredinol y Cyngor. Ailadroddir yr hyn y mae'r Cyngor am ei gyflawni mewn ffordd sy'n peri dryswch, gan wneud cysylltiad â chanlyniadau ar brydiau, ond gan gyfeirio at sicrhau cynnydd rhaglenni gwaith ar adegau eraill. Ceir disgrifiad da ar y cyfan o pam y dewiswyd yr amcan gwella wedi'i ategu gan gamau gweithredu a mesurau perfformiad a fydd yn darparu tystiolaeth o weithgarwch; er nad ydynt yn fesur uniongyrchol o sicrhau canlyniad cyffredinol mewn llawer o achosion. Mae'r cynllun corfforaethol yn cysylltu yn ôl â'r Strategaeth Gymunedol. Ceir cyfeiriadau clir at ddogfennau polisi a strategol eraill mewn atodiad, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol am sut i gael rhagor o wybodaeth am gynlluniau'r Cyngor.

26 Cyhoeddodd y Cyngor grynodeb o'r cynllun corfforaethol hefyd. Mae'r ddogfen hon yn gliriach o lawer ac yn haws i'w darllen. Er nad yw'n cynnwys holl fanylion y prif adroddiad, mewn sawl ffordd mae'n fodel gwell ar gyfer cyfleu cynlluniau'r Cyngor i'r cyhoedd.

27 Wrth bennu amcanion gwella, mae angen i'r Cyngor fod yn glir o ran yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni, a gallu cyfleu i ddinasyddion lleol pa wahaniaeth y bydd cyflawni'r amcanion hyn yn ei wneud i'w bywydau. Rhaid i'r Cyngor gael ffyrdd o fesur ei berfformiad fel bod pawb yn deall a yw'n gwella, ac os felly sut y mae'n gwella.

28 Mae amcanion gwella trosiannol y Cyngor yn gyffredinol iawn, gan gwmpasu bron yr holl brif wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Nid yw'r dull hwn yn ei gwneud yn hawdd i ddinasyddion ddeall beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer y Cyngor ac mae'n gwneud i ni amau a ellir cyflawni pob un ohonynt ar adeg pan fo toriadau mewn gwariant cyhoeddus. Rydym hefyd o'r farn bod dull o'r fath yn ei gwneud yn fwy anodd i ddinasyddion ddwyn y Cyngor i gyfrif neu i ddeall beth yn union y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni.

29 2010-11 oedd y flwyddyn gyntaf y bu'n ofynnol i gynghorau gynhyrchu amcanion gwella. Mae'r Amcanion Gwella a nodwyd ar gyfer 2010-11 o natur drosiannol iawn, ac roedd y Cyngor bob amser yn ymwybodol o hyn ac yn bwriadu eu diwygio'n llawn ar gyfer 2011-12 er mwyn ystyried y sefyllfa o ran y gyllideb.

30 Dengys ein gwaith y bydd y Cyngor yn gallu mesur y gwaith o gyflawni'r amcanion gwella mewn sawl maes, ond mae'n wynebu dwy her benodol o hyd. Y gyntaf yw dangos pa wahaniaeth y maent wedi'i wneud i fywydau dinasyddion lleol. Mae hyn yn her gan fod y Cyngor, ynghyd â chynghorau eraill yng Nghymru, wedi bod yn ymateb i fframwaith cenedlaethol sy'n seiliedig ar fesur cynnydd ac allbynnau yn hytrach na chanlyniadau. Yr ail fydd dweud faint o gyfraniad y mae'r Cyngor yn ei wneud a faint sydd i'w briodoli i sefydliadau partner a ffactorau eraill nad oes gan y Cyngor reolaeth drostynt. Mae hyn yn arbennig o anodd ar gyfer pethau fel gwella perfformiad economaidd Abertawe.

31 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu gwell mesurau o ganlyniadau, ac yn ddiweddar mae wedi bod yn flaengar a chyflwyno atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau fel ffordd o fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau yn fodel sy'n dechrau gyda'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni, ac yn gweithio yn ôl gam wrth gam i benderfynu sut a beth y mae angen i'r Cyngor ac eraill ei wneud i gyflawni'r canlyniad hwn. Mae diffinio sut i fesur gwelliant a nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni pa rannau o'r cynllun gweithredu yn rhan bwysig o'r model.

32 Dangosodd gweithdai a gynhaliwyd gennym gydag aelodau a swyddogion y Cyngor ym mis Medi 2010 fod y Cyngor yn glir o ran yr hyn y mae am ei gyflawni ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Hefyd datgelodd y gweithdai fod angen i'r Cyngor wneud mwy i ddangos i'r cyhoedd sut y mae'n perfformio ar hyn o bryd er mwyn gallu dangos gwelliant yn y dyfodol.

33 Gwnaethom edrych ar ba mor dda yr oedd y Cyngor wedi cynnwys pobl leol a'r rhai sy'n gweithio iddo a chydag ef, wrth bennu'r hyn y dylid ei flaenoriaethu. Er na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad newydd i lywio'r Cynllun Corfforaethol, canfuwyd bod yr amcanion gwella a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu amcanion y Strategaeth Gymunedol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2009 a ddatblygwyd drwy ymgynghori â'r cyhoedd, partneriaethau a phartneriaid. Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal ymgynghoriad eleni a bwriedir cynnal mwy o waith ymgynghori wedi'i dargedu yn 2011-12 i lywio'r amcanion gwella ar gyfer 2012-13.

34 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid a dinasyddion i ymgysylltu â dinasyddion a datblygu proffil cymunedol, ond gallai'r Cyngor wneud mwy i gynnwys ei staff a sefydliadau eraill wrth gynllunio'i wasanaethau. Dylai'r cyngor gynnwys y sector gwirfoddol hefyd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu ymdrechion.

35 Mae angen i bob Cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Canfuwyd bod systemau'r Cyngor ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth yn dda. Mae trefniadau da ar waith i oruchwylio'r broses o gynhyrchu a chasglu gwybodaeth am berfformiad. Er i rai gwallau gael eu nodi wrth i ni archwilio dangosyddion perfformiad y Cyngor, mân wallau oeddent. Caiff perfformiad ei fonitro a'i herio'n rheolaidd.

36 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella Corfforaethol Blynyddol fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth. Mae'r adroddiad yn nodi cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo ar gyfer 2009-10. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn Lleisiau Abertawe, sef panel dinasyddion y Cyngor, o ran pa mor llwyddiannus neu aflwyddiannus y bu'r Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau.

# A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwasanaethu pobl yn dda?

37 Drwy ein Hasesiad Gwella blynyddol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn edrych ar wasanaethau'r Cyngor a rhai o'r amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i dair agwedd bwysig ar fywyd yn Abertawe. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau hyn yn cwmpasu'r prif wasanaethau a ddarperir gan gynghorau ar gyfer dinasyddion. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu;
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw.

38 Yn yr asesiad eleni, rydym wedi edrych ar gynnydd y Cyngor hyd yma o ran ei amcanion gwella ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae'r amcanion a ddewiswyd gennym fel a ganlyn:

- gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, sicrhau'r lles gorau posibl, codi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad a sicrhau eu bod yn ddiogel (helpu i gefnogi pobl mewn angen a helpu pobl i ddatblygu);
- gwella a gwarchod ein hamgylchedd a gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel (helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw).

39 Dewiswyd yr amcanion hyn oherwydd gyda'i gilydd maent yn cwmpasu sawl maes allweddol o gyfrifoldebau'r Cyngor. Mae'r ddau yn anodd i'w dangos a'u mesur, er enghraifft lles a theimlo'n fwy diogel. Mae'r ddau yn cynnwys partneriaid yn y broses gyflawni ac mae'n bwysig gallu mesur sut y mae gweithredoedd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni amcanion ac i ddeall rôl asiantaethau eraill. Ar y cyfan, os yw'r Cyngor wedi dewis blaenoriaethu pethau, dylai fod yn gallu eu mesur o ran sut maent yn effeithio ar bobl leol.

40 Byddwn yn ystyried amcanion gwella eraill y mae'r Cyngor yn eu pennu iddo'i hun yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

41 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn sy'n bennaf cyfrifol am ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Disgwylir i bob Awdurdod Lleol gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Bwrdd sy'n egluro sut y gweithredwyd ei Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Adroddiad hwn yn galluogi'r Bwrdd i gynnig cyngor o ran sut y gallai Cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei adolygiadau ei hun i asesu'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac ysgogi gwelliant.

42 Cafodd y Cyngor glod gan y Bwrdd am sicrhau bod dogfennaeth etholiadol Cymraeg ar gael ac am gynhyrchu gwefan ddwyieithog gynhwysfawr. Fodd bynnag, mynegodd y Bwrdd bryder ynghylch y diffyg cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Prin yw'r dystiolaeth o gynnydd, er enghraifft o ran casglu data ar sgiliau ieithyddol staff, ac o ddefnyddio'r data wrth gynllunio darpariaeth gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn disgwyl y bydd Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig a Fframwaith Sgiliau Ieithyddol yn hwyluso cynnydd, neu bydd y Cyngor yn wynebu'r risg o fethu â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'i ymrwymiadau o dan y Cynllun Iaith.

# A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi pobl mewn angen?

43 Mae'r wybodaeth ym mharagraffau 44-46 yn dangos y cyd-destun y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo. Mae'n cynnwys gwybodaeth am faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y Cyngor. Fel y cyfryw nid yw'n sylwadaeth ar berfformiad y Cyngor ond yn hytrach mae'n dangos y materion sy'n wynebu'r Cyngor y mae'r rhaid iddo fynd i'r afael â hwy ar y cyd ag eraill.

44 Mae disgwyliad oes o fewn Dinas a Sir Abertawe yr un peth â chyfartaledd Cymru, er ei fod yn cynyddu. Y disgwyliad oes i fenywod ar gyfer 2006-2008 oedd 81.1 mlynedd, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 81.4 mlynedd, a disgwyliad oes dynion ar gyfer 2006-2008 oedd 77 mlynedd, sef yr un peth â chyfartaledd Cymru. Bydd y cynnydd mewn disgwyliad oes, dros amser, yn creu mwy o alw am wasanaethau'r Cyngor ar gyfer pobl hŷn, a bydd angen i'r Cyngor gynllunio am y galw hwnnw a'i reoli.

45 Roedd gan ardal y Cyngor yr 11 fed lefel isaf yng Nghymru o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn 2007 gyda 43.6 achos o feichiogi fesul 1,000 o ferched 15 i 17 oed, o gymharu â chyfradd gyfartalog Cymru o 44.9. Yn 2008, roedd gan Abertawe y gyfradd uchaf o blant a oedd yn byw mewn cartrefi heb waith o blith awdurdodau lleol Cymru.

46 Ar hyn o bryd, mae tua 20 y cant o blant yn Abertawe yn byw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yn sylweddol uwch mewn rhai ardaloedd difreintiedig. Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir y bydd llai o gyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed o ganlyniad i hyn, ac mae'r Cyngor yn bwriadu canolbwyntio ar wella ei wasanaethau ar gyfer y grŵp hwn sy'n agored i niwed.

47 Rôl AGGCC yw cyflawni asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ar ofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac felly annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd ceir fframwaith newydd ar gyfer gwaith arolygu, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

48 Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu blynyddol ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna bydd AGGCC yn mynd ati i adolygu a dadansoddi tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth a roddir gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn caiff cynllun arolygu ac adolygu unigol ei lunio ar gyfer pob cyngor. Caiff dadansoddiad AGGCC, ynghyd â'r cynllun arolygu ac adolygu, eu cyflwyno bob blwyddyn mewn llythyr a gyhoeddir.

49 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd sydd â'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad presennol. Ceir crynodeb o negeseuon allweddol y llythyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod.

50 Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu asesiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a threfniadau contractio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pobl hŷn a'r sawl sydd ag anableddau dysgu, ond mae angen gwneud gwaith pellach i ddangos sut y mae canlyniadau wedi gwella. Mae perfformiad o ran lleihau nifer y bobl sy'n gorfod aros am fwy o amser yn yr ysbyty tra'n aros i'w trefniadau gofal gael eu trosglwyddo i'r gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i wella.

Mae'r Cyngor wedi gwella amseroldeb o ran cwblhau asesiadau a chyflawni cynlluniau gofal, mae perfformiad yn parhau i fod yn well na chanolrif Cymru ac mae'n parhau i fod yn faes ar gyfer gwella.  Mae perfformiad o ran y bwlch amser rhwng cwblhau cynlluniau gofal neu adolygiadau a darparu gwasanaethau wedi gwaethygu.

51 Nododd AGGCC bod ymatebion y Cyngor i faterion o ran amddiffyn oedolion yn effeithiol iawn, a bod datblygu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer cleifion preswyl sydd â dementia yn dda.

52 Cynigiodd y Cyngor asesiad i 100 y cant o'r gofalwyr, sef un o'r lefelau perfformiad uchaf yng Nghymru, fodd bynnag, dim ond 10 y cant o ofalwyr a dderbyniodd asesiad, ac mae'r Cyngor wedi paratoi ystod o fesurau i wella'r perfformiad hwn. Mae nifer y defnyddwyr sy'n cael datrysiadau technoleg gynorthwyol wedi cynyddu ac mae mwy o ffocws ar gymorth cymunedol, er bod nifer y taliadau uniongyrchol yn parhau i fod yn isel.

53 Bu'r cynnydd o 30 y cant yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn heriol, ond mae'r dangosyddion allweddol o berfformiad y Cyngor naill ai wedi gwella neu wedi parhau'n gyson. Er bod y Cyngor wedi buddsoddi mewn gwasanaethau maethu, nid yw hyn wedi cael effaith hyd yma ar y nifer fawr o blant sy'n cael eu lleoli y tu allan i ardal y cartref. Mae'r gwasanaeth mabwysiadu wedi perfformio'n dda o ran nifer yr achosion mabwysiadu a gwblhawyd. Recriwtiwyd staff newydd ac mae trefniadau cymorth ar waith; fodd bynnag, mae nifer yr achosion nas dyrannwyd a'r llwythi achosion yn parhau i fod yn uchel. Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor yn datblygu gwasanaethau ataliol a rhannwyd dealltwriaeth gliriach o gymhwysedd rhyngddynt. Daeth AGGCC i'r casgliad bod proses y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau ar atgyfeiriadau yn parhau i fod yn amserol, ond amlygodd yr angen i wella amseroldeb ac ansawdd asesiadau craidd. Mae cyfraddau ail-atgyfeirio yn nau chwarter cyntaf eleni yn lleihau. Mae defnyddwyr gwasanaethau cymorth i deuluoedd y Cyngor wedi mynegi lefel uchel o foddhad, ond gellid gwella ystod y gwasanaethau ar gyfer plant hŷn anabl a threfniadau trosiannol.

54 Daeth AGGCC i'r casgliad bod uwch reolwyr o fewn y Cyngor yn effeithiol ac yn atebol ar y cyfan. Ceir gwell ffocws ar wella o fewn tîm rheoli'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae'r Bwrdd Trosolwg a Chraffu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn effeithiol, a cheir cydberthynas ragweithiol â rheoleiddwyr. Mae gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion wedi'u cydnabod yn y cynllun gwella corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi bod yn canolbwyntio'n well ar ddatblygu agenda drawsnewid glir ar gyfer gwasanaethau oedolion.  Mae angen i'r Cyngor sicrhau ymhellach fod yr holl uwch reolwyr yn weladwy i'w staff ac yn ymgorffori'r weledigaeth strategol.

## A yw Cyngor Abertawe yn gwella gwasanaethau i bobl ifanc ac yn sicrhau'r lles gorau posibl?

55 Tynnwyd yn ôl y Bwrdd Ymyrraeth a sefydlwyd i arolygu'r gwelliannau angenrheidiol i Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn Abertawe (gweler paragraff 10). Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol bod angen iddo gynnal ei welliant cyffredinol a gwella ymhellach mewn rhai meysydd.

56 Mae gan Abertawe y nifer fwyaf o blant mewn gofal yng Nghymru. Mae'r nifer wedi cynyddu 29.4 y cant o 432 yn 2009 i 559 yn 2010 yn dilyn ymwybyddiaeth uwch o bobl ifanc sy'n agored i niwed oherwydd achosion fel Babi P. Hwn yw'r cynnydd mwyaf ond un yng Nghymru ac mae wedi rhoi pwysau sylweddol ychwanegol ar y Cyngor ar adeg anodd, er i'r Cyngor, fel y nododd AGGCC yn ddiweddar, ymateb yn gadarnhaol i'r pwysau hyn. Mae canran y plant sy'n derbyn gofal sydd â chynllun gofal ar waith ar yr adeg y cânt eu gosod gyda rhieni maeth wedi gwella'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, a bellach mae cynllun gofal ar waith ar gyfer pob plentyn. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf bu'n rhaid i fwy o bobl ifanc newid gofalwyr neu ysgolion, sy'n gwneud eu bywydau'n llai sefydlog.

57 Mae'r Cyngor wedi gwella'r amser a gymerir i gwblhau'r asesiad cychwynnol o anghenion plant a atgyfeiriwyd, a bellach mae'n cwblhau 72 y cant o fewn yr amser targed, sy'n well na chyfartaledd Cymru. Caiff yr asesiadau hynny nas cwblheir o fewn yr amser targed eu cwblhau mewn 14 diwrnod, ar gyfartaledd. Nid yw perfformiad cystal ar gyfer yr asesiad craidd helaethach, gyda dim ond 56.8 y cant yn cael eu cwblhau o fewn yr amser targed, sy'n llai na chyfartaledd Cymru o 63.4 y cant. Gall gymryd hyd at 75 diwrnod i gwblhau'r asesiad mewn rhai achosion.

58 Bydd y Cyngor yn gallu dangos gwelliant drwy fesurau megis sefydlogrwydd trefniadau gofal a gwell perfformiad o ran cyflawni asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd. Fodd bynnag, er bod y mesurau hyn yn werthfawr, mae angen i'r Cyngor, ynghyd â'r rhan fwyaf o gynghorau eraill, ddatblygu mesurau ychwanegol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrofiad y defnyddiwr. Mae'n anodd iawn gwerthuso lles cleientiaid, ond mae'n rhaid i'r Cyngor gael gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr, p'un a ydynt yn teimlo'n well, a ph'un a yw eu hanghenion yn cael eu diwallu yn unol â'u disgwyliadau.

59 Erbyn i ni gyhoeddi'r adroddiad hwn y flwyddyn nesaf byddwn yn gallu cyflwyno adroddiad ar gynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei dargedau yn y maes hwn.

# A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn helpu pobl i ddatblygu?

60 Mae Estyn, sef yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn llunio barn ar ba mor dda y mae cynghorau yn cefnogi'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn, drwy ei dimau rhanbarthol, yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad, yn ymweld ag ysgolion ac yn cyfarfod yn rheolaidd â Chyfarwyddwyr Addysg er mwyn llunio barn ar rôl y Cyngor a pherfformiad ym maes addysg yn yr ardal.

61 Dywedodd Estyn wrthym fod perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 1 (Blwyddyn 2) wedi gwella i lefel sy'n uwch na chyfartaledd Cymru yn 2009, er i berfformiad dirywio ychydig yn 2010. Yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6) a Chyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9) bu gwelliant mewn perfformiad yn 2010, sef perfformiad gorau'r sir erioed. Gwnaeth perfformiad ledled Cymru barhau i wella'n raddol ond roedd y cynnydd yn well na chynghorau eraill, ac o ganlyniad roedd y sir yn agosach at gyfartaledd Cymru.

62 Yn 2009, parhaodd perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 11) i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru neu'n agos ato ar gyfer y dangosyddion hynny sy'n adlewyrchu disgyblion sy'n ennill cymwysterau lefel 2. Fodd bynnag, mae'r cynnydd o ran dangosyddion eraill, yn cynnwys canran y dysgwyr sy'n gadael addysg lawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig, ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac mae angen i hyn wella. Yn 2007 a 2008 cyrhaeddodd Abertawe bob un o dri meincnod Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 neu rhagorodd arnynt, ond dim ond un o'r meincnodau hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor yn 2009.

63 Mae canran yr oedolion heb unrhyw gymwysterau, yn y Ddinas a'r Sir, wedi lleihau'n raddol ers 2001 ac mae'n well na chyfartaledd Cymru.

64 Canran y bobl ifanc Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs) oedd y ganran a wellodd orau o blith holl awdurdodau Cymru yn 2008. Fodd bynnag, cynyddodd y ganran yn 2009 a'r awdurdod hwn oedd y pedwerydd gwaethaf yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella'r maes hwn ac mae'n cymryd camau a gynlluniwyd i leihau'r ganran. Roedd canran y disgyblion sy'n parhau mewn addysg ôl-16 lawn amser wedi gwella yn 2009 ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru; bellach mae'r Cyngor yn y pedwerydd safle ar ddeg safle o blith Cynghorau Cymru.

## A yw'r Cyngor yn codi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad?

65 Mae codi safonau cyrhaeddiad yn rhan o amcan gwella eang mawr. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau addysg gynradd ac uwchradd effeithlon, hyrwyddo safonau uchel, a sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau gwella ysgolion sy'n seiliedig ar set glir o egwyddorion a ddisgrifir yn Ansawdd mewn Addysg 2020.

66 Mae gan y Cyngor gryn dipyn o ddata sy'n cyfleu ei sefyllfa bresennol. Roedd 4,112 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd yn 2009, ac roedd 2,698 o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd. Mae'r lleoedd gwag yn cyfateb i fwy nag 20 y cant o gyfanswm y lleoedd mewn ysgolion cynradd ac 16 y cant o'r lleoedd mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn waeth na chyfartaledd Cymru yn y ddau achos. Mae cyfraddau presenoldeb yn yr

ysgol yn agos i gyfartaledd Cymru, sef 92.4 y cant mewn ysgolion cynradd a 90.7 y cant mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 0.9 y cant, gydag 1.6 o bobl ifanc sy'n gadael ysgol yn y categori hwn.

67 Bydd rhoi cynlluniau'r Cyngor ar waith yn arwain at newid sylweddol, sy'n cynnwys lleihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion, cynyddu nifer y cyfleoedd cyfrwng Cymraeg, a sicrhau bod cyfleusterau addysgu arbenigol digonol ar gael.

68 Bydd y Cyngor yn targedu cymorth i ddisgyblion ac oedolion sydd â lefel isel o gyflawniad i wella sgiliau sylfaenol, yn enwedig darllen, a bydd hefyd yn ceisio gwella presenoldeb mewn ysgolion. Bydd cymorth pellach i ddisgyblion a nodwyd yn yr ystod oedran 14-16 yn helpu i warantu lle iddynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

69 Byddwn yn gallu adrodd ar gynnydd y Cyngor yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

# A yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw?

70 Mae'r wybodaeth ym mharagraffau 71-74 yn dangos y cyd-destun y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo. Mae'n cynnwys gwybodaeth am faterion sydd y tu hwnt i gwmpas y Cyngor. Fel y cyfryw, nid yw'n sylwadaeth ar berfformiad y Cyngor ond yn hytrach mae'n nodi'r materion sy'n wynebu'r Cyngor y mae angen iddo fynd i'r afael â hwy ar y cyd ag eraill.

71 Mae cyfradd droseddu'r Sir wedi lleihau'n gyson dros y saith mlynedd ddiwethaf. Difrod troseddol (25 y cant) a lladrata (22 y cant) yw cyfran uchaf y troseddau hyn.

72 Mae 47 y cant o oedolion sy'n byw yn Abertawe yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden egnïol yn rheolaidd. Mae'r lefel cyfranogiad hon ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Fel y nodwyd ym mharagraff 44, mae disgwyliad oes yn Abertawe hefyd yn is na chyfartaledd Cymru.

73 Ym mis Gorffennaf 2010, roedd 3.4 y cant, neu 5100 o drigolion o oedran gweithio yn ddi-waith, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6 y cant. Yn 2007, lefel yr Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario y pen yn Abertawe oedd £12,524, sef y 10fed lefel isaf o blith y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

74 Yn 2009, £479 oedd yr enillion cyfartalog wythnosol yn Abertawe; sef y seithfed swm isaf o blith 22 awdurdod lleol Cymru. Yn 1999 roedd enillion yn Abertawe yn cyfateb i gyfartaledd Cymru, ond maent wedi gostwng yn is na chyfartaledd Cymru ers hynny. Yn 2008, fel y nodwyd ym mharagraff 45, roedd gan Abertawe y gyfradd uchaf o blant a oedd yn byw mewn cartrefi heb waith o blith awdurdodau lleol Cymru, gydag ardaloedd o amddifadedd yn achosi pryder.

## A yw'r Cyngor yn gwella ac yn diogelu'r amgylchedd ac yn gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel?

75 Mae'r cyhoedd wedi nodi eu bod am weld amgylchedd glanach a mwy diogel, a lle mwy dymunol i fyw ynddo ac i ymweld ag ef. Maent am weld y Cyngor yn canolbwyntio ar hyn. Dyfarnwyd gwobr dinas lân arian i'r Cyngor yn 2008-09 ac mae'n adeiladu ar hyn drwy ddatblygu timau gwasanaeth ardal i ddarparu gwasanaethau cymdogaethol sy'n canolbwyntio ar angen.Os bydd y timau gwasanaeth hyn yn llwyddiannus, dylai fod lleihad yn nifer y cwynion a chanlyniadau gwell o arolygon dinasyddion a grwpiau ffocws. Dengys yr ymatebion presennol i arolygon dinasyddion fod 54.5 y cant o ddinasyddion o'r farn bod y Cyngor yn llwyddiannus iawn neu'n weddol lwyddiannus o ran darparu gwasanaethau glanhau strydoedd a gwasanaethau cynnal a chadw a oedd wedi'u cydgysylltu'n dda.

76 Mae nifer o bartneriaid allweddol yn ymwneud â'r amcan hwn, yn cynnwys yr heddlu a gwasanaethau iechyd. Bydd partneriaid yn cyflwyno adroddiadau ar welliannau, er enghraifft ffigurau troseddu'r heddlu. Fodd bynnag, gall fod yn anodd i'r Cyngor asesu'n gywir p'un a yw pobl yn teimlo'n fwy diogel ai peidio.

77 Mae casglu ac ailgylchu gwastraff yn rhan arall o'r gwaith o ddarparu amgylchedd glanach, ac mae hyn hefyd yn cyfrannu at leihau'r ôl-troed ecolegol. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth rheoli gwastraff effeithiol ac effeithlon i drigolion, ymwelwyr a masnachwyr. Mae rheoli gwastraff yn un o wasanaethau 'gweladwy' y cyngor y mae pob trigolyn yn cael budd ohono. Dengys yr ymatebion presennol i arolygon dinasyddion fod 88 y cant o ymatebwyr o'r farn bod y Cyngor yn weddol lwyddiannus, neu'n llwyddiannus iawn o ran lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.

78 Yn 2009-10, cafodd 35 y cant o wastraff cartref ei ailgylchu neu ei gompostio, o gymharu â tharged Llywodraeth y Cynulliad o 40 y cant. Nid oedd hyn yn berfformiad da, ond roedd yn well na'r perfformiad o 32 y cant y flwyddyn flaenorol.

79 Cynigir gwasanaeth ailgylchu bwyd i drigolion ond mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn amrywio ar hyn o bryd, ar ôl cynyddu'n ddiweddar yn yr ardaloedd hynny lle y cyflwynwyd casgliadau gweddilliol amgen. Nid oes fawr o obaith y caiff y targedau a bennir ar gyfer y dyfodol gan Lywodraeth y Cynulliad eu cyrraedd oni bai fod mwy o bobl yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Mae angen i'r Cyngor gynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y gwasanaethau ailgylchu a chompostio gwastraff trefol.

80 Ar y cyfan mae'r amcan eang iawn hwn yn cynnwys ystod eang o bartneriaid o ran darparu'r gwasanaeth, ac mae elfennau ohono'n anodd iawn i'w mesur. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd y Cyngor y flwyddyn nesaf.

# Beth ddylai Cyngor Dinas a Sir Abertawe ei wneud?

81 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

82 Yng ngoleuni ein gwaith mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell yn ffurfiol y dylai'r Cyngor, erbyn 28 Chwefror 2011, lunio cynllun gweithredu sy'n nodi ei ymateb i'r argymhellion a geir yn ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2010 ar drefniadau'r pwyllgor cynllunio. Mae angen i'r Cyngor hefyd ystyried ein cynigion i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- Ymgysylltu ymhellach â phartneriaid er mwyn nodi canlyniadau a rennir, a datblygu mesurau llwyddiant a dangosyddion perfformiad.
- Sicrhau bod cynlluniau strategol wedi'u cysoni'n ofalus, a'u hintegreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn cryfhau trefniadau cynllunio busnes corfforaethol.
- Sicrhau y caiff gwaith cynllunio ariannol a chynllunio gwasanaethau eu hintegreiddio'n well er mwyn gwella perchenogaeth cyllidebau a gwella'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd i sicrhau arbedion.
- Chwilio am ffyrdd o gryfhau atebolrwydd am ymddygiad aelodau a lleihau nifer yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Gallai hyn gynnwys ystyried rôl fwy gweithredol i'r Pwyllgor Safonau a/neu ddatblygu systemau mewnol ar gyfer datrys cwynion.
- Sicrhau bod strwythur cliriach ar gyfer gwneud penderfyniadau yn yr adran TGCh ac ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau TGCh yn y dyfodol.

**Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach**

- Symud rhywfaint o ymdrech Adnoddau Dynol i gynllunio a pharatoi camau gweithredu ar gyfer y dyfodol er mwyn helpu'r Cyngor i baratoi ar gyfer risgiau sylweddol a'u lliniaru cyn iddynt ddatblygu.
- Yn benodol, mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:
  - Strategaeth Adnoddau Dynol
  - Cynllunio strategol ar gyfer y gweithlu
  - Arfarniadau perfformiad unigol
- Gwella gwaith integreiddio rhwng y cynllun gwasanaeth, y cynllun ariannol a'r cynllun gweithlu er mwyn creu dull gweithredu strategol i leihau costau staff sy'n lleihau'r risg o gamgyfatebiaeth rhwng y gofynion o ran adnoddau a'r cyflenwad sgiliau yn y dyfodol.

Noder: Amlygir y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r cynigion uchod ym mharagraff 13 o'r adroddiad hwn.

**Cynigion newydd**

- Cynnal y gwelliant cyffredinol o ran gwasanaethau Plant a Theuluoedd a nodwyd gan AGGCC.
- Lleihau canran y bobl ifanc Nad Ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant.
- Cynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y gwasanaethau ailgylchu a chompostio gwastraff trefol.
- Adolygu'r amcanion gwella sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau eu bod yn fforddiadwy, yn unol â'r blaenoriaethau cymeradwy a nodwyd yng nghyllideb 2011-12, a'u bod yn glir i ddinasyddion.
- Ymgynghori â phobl leol a'r rhai sy'n gweithio i'r Cyngor a chydag ef o ran amcanion gwella ar gyfer y dyfodol.
- Dadansoddi gwybodaeth sy'n bodoli eisoes ar gyfer pob amcan gwella er mwyn pennu llinell sylfaen ar gyfer monitro cynnydd. Nodi mesurau i ddangos canlyniadau ar gyfer dinasyddion lleol.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau.[1]

2 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23) sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith a wnaed ganddynt.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad a wnaed ganddo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Reoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn â'r awdurdod. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 hyd at fis Mawrth 2011 fod yn unol â'r swm a nodir yn y Rhaglen Reoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Abertawe a Chyngor Dinas a Sir Abertawe

Yn 2009-10, gwariodd y Cyngor £701 miliwn, sy'n cyfateb i tua £3,000 fesul trigolyn; gwariodd yr Awdurdod £59 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Yn 2009-10, elfen y Cyngor o'r dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D i drigolion Abertawe oedd £918.38 y flwyddyn, a chynyddodd 4.35 y cant i £958.33 y flwyddyn ar gyfer 2010-11. Mae 77 y cant o dai Abertawe yn y bandiau treth gyngor A i D.

Aelodau'r Cynulliad ar gyfer Abertawe yw:

- Val Lloyd, Dwyrain Abertawe, y Blaid Lafur
- Andrew Davies, Gorllewin Abertawe, Blaid Lafur
- Edwina Hart, Gŵyr, y Blaid Lafur

Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Gorllewin De Cymru yw:

- Alun Cairns, y Ceidwadwyr Cymreig
- Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Dai Lloyd, Plaid Cymru
- Bethan Jenkins, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol ar gyfer Abertawe yw:

- Martin Caton, Gŵyr, y Blaid Lafur
- Geraint Davies, Gorllewin Abertawe, y Blaid Lafur
- Sian James, Dwyrain Abertawe, y Blaid Lafur

Ceir 72 o Gynghorwyr yn Abertawe sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 37 o Weinyddiaeth Abertawe
- 27 o'r Blaid Lafur
- 5 o'r Ceidwadwyr Cymreig
- 3 o Gymunedau Abertawe

Paul Smith yw'r Prif Weithredwr ac mae ei dîm rheoli'n cynnwys:

- Cyfarwyddwr Gweithredol: Jack Straw
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Richard Parry
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Adfywio a Thai, Phil Roberts
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - yr Amgylchedd, Reena Owen
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol, Chris Maggs

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.abertawe.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn y Ganolfan Ddinesig, Ffordd Ystumllwynarth, Abertawe. SA1 3SN.

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mehefin 2010:

**Mae rhai trefniadau corfforaethol wedi gwella ac maent yn cefnogi gwella mewn ffordd gadarnhaol, ond erys rhai gwendidau ac mae arweinyddiaeth y Cyngor bellach yn wynebu'r her o gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn amgylchedd ariannol anodd iawn.**

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Ar ôl cyfnod o newid sylweddol, mae gan y Cyngor bellach arweinyddiaeth fwy sefydlog ond bydd angen iddo wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn sicrhau gwelliant mewn amgylchedd heriol iawn.

Nodweddwyd y Cyngor yn y gorffennol gan newidiadau sylweddol mewn arweinyddiaeth a darlun cymysg o gyflawniad.

Bellach mae gan y Cyngor arweinyddiaeth wleidyddol ac uwch-swyddogion arweiniol mwy sefydlog ac mae wrthi'n gwella rhai gwasanaethau allweddol, er yr erys Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn agored i ymyrraeth.

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol a bydd angen iddo wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn sicrhau gwelliant.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae rhai trefniadau'n cefnogi gwelliant yn gadarnhaol ac mae Tîm Rheoli Corfforaethol sefydlog yn bodoli, fodd bynnag, ceir rhai problemau a diffygion llywodraethu mewn rhai trefniadau busnes.

Mae trefniadau partneriaeth, rheoli prosiectau a rhai agweddau ar reoli adnoddau yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol.

Mae gan y Cyngor Dîm Rheoli Corfforaethol sefydlog a grŵp o bolisïau a strategaethau cydlynol ar y cyfan ond ceir rhai problemau llywodraethu a bydd angen i'r arweinyddiaeth wneud penderfyniadau anodd ac amserol er mwyn sicrhau'r arbedion angenrheidiol.

Gallai diffygion mewn cynllunio busnes, rheoli perfformiad a risg ac agweddau ar reoli pobl beryglu gwelliant yn y dyfodol.

I weld yr adroddiad llawn ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk neu cysylltwch â ni yn y cyfeiriad ar y clawr mewnol.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Dinas a Sir Abertawe

**Cydymffurfiodd Cyngor Dinas a Sir Abertawe â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiad ariannol a gwella perfformiad ond mae'n wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos.**

1 Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

2 Mae'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

3 Ar 29 Medi 2010, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

4 Nodwyd y materion canlynol wrth archwilio'r cyfrifon:

- Cyflwynwyd argymhellion o ran agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol y Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau archwilio a newidiadau i'r naratif o fewn y cyfrifon drafft.
- Nodwyd rhai gwendidau o ran rheolaethau mewnol. Mae'r Cyngor yn rhoi cynllun gweithredu ar waith mewn ymateb, sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Archwilio.
- Cyflwynwyd ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan (WGA) yn hwyr gan fod swyddogion wedi cynnal adolygiad mwy trwyadl nag a wnaed yn y gorffennol a nododd ein harchwiliad nifer o gamddatganiadau ar y ffurflen, yr oedd angen eu haddasu.
- Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i'r argymhellion a wnaed yn dilyn archwiliad y llynedd gan wella'r prosesau adrodd ariannol a oedd yn gysylltiedig â datganiadau ariannol y gronfa bensiwn.

- Gwnaed cynnydd o ran paratoi ar gyfer gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn 2010-11 a bu swyddogion wrthi'n trafod materion gyda thîm yr archwiliad.

5 Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur. Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

6 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-11 yn bodloni gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2009-10.

7 Nid wyf wedi gallu ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau gan fod angen ateb cwestiynau a godwyd gan etholwyr mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon.

8 Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 fod yn uwch na'r swm a nodwyd yn y Strategaeth Archwilio Ariannol gan ein bod wedi treulio amser archwilio ychwanegol ar rai meysydd o'r cyfrifon. Rydym yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol a'i dîm i nodi gwelliannau y gall yr Awdurdod eu gwneud i'w brosesau adrodd ariannol er mwyn osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol.

Lynn Hine (PricewaterhouseCoopers LLP)
Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

30 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella Corfforaetholar gyfer 2010-11 - *Gwneud Gwahaniaeth* y gellir ei weld ar wefan y Cyngor yn www.abertawe.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

- gwella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, sicrhau'r lles gorau posibl, codi safonau cyrhaeddiad a chyflawniad a sicrhau eu bod yn ddiogel fel bod y Ddinas a'r Sir yn darparu cyfleoedd addysg ardderchog;
- gwella a diogelu ein hamgylchedd a gwneud i gymunedau deimlo'n fwy diogel fel bod y Ddinas a'r Sir yn lle gwych i fyw ynddo;
- gwella perfformiad economaidd Abertawe fel bod y Ddinas a'r Sir yn cynnal economi ffyniannus;
- gwella gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i bawb fel bod y Ddinas a'r Sir yn cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd da.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Cymerwyd yr holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau crynhoi ardaloedd lleol
- Gwefannau a chynlluniau gwella'r Awdurdod Gwella ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
- Swyddfa Ystadegau Gwladol